Memorandwm o Ddealltwriaeth rhwng Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (Y Coleg)

Cyflwyniad

1. Mae CCAUC yn dymuno datblygu a chynnal addysg uwch ragorol yn rhyngwladol yng Nghymru, er budd unigolion, y gymdeithas a'r economi yng Nghymru ac yn ehangach. Mae CCAUC yn rheoleiddio lefelau ffioedd mewn addysg uwch ac yn sicrhau bod fframwaith yn ei le ar gyfer asesu ansawdd addysg uwch a chraffu ar berfformiad addysg uwch a darparwyr dynodedig eraill. Rydym yn defnyddio adnoddau gan Lywodraeth Cymru ac eraill i sicrhau dysgu ac ymchwil addysg uwch o'r ansawdd uchaf, gan fanteisio i'r eithaf ar gyfraniad addysg uwch at ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru.

2. Mae CCAUC yn gweithio gyda'r Coleg i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch drwy fuddsoddi mewn cyfleoedd a gyllidir gan Y Coleg sy'n cynnwys staff a darpariaeth newydd, ffocws ar feysydd targed allweddol, a chefnogaeth i ddilyn y Dystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg.

3. Sefydlwyd y Coleg yn 2011. Drwy weithio gyda a thrwy'r prifysgolion unigol yng Nghymru y mae'r Coleg yn cynllunio, cynnal, datblygu, hyrwyddo a goruchwylio darpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg. Yn Rhagfyr 2017 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai cyfrifoldebau'r Coleg yn ymestyn i'r sector ôl-16, gan gynnwys addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith.

4. Prif nod y Coleg yw cynyddu, datblygu ac ehangu cyfleoedd astudio drwy'r Gymraeg ym mhrifysgolion Cymru. Mae'n gweithio gyda'r prifysgolion, colegau a darparwyr eraill i ddatblygu cynlluniau academaidd blaengar ac uchelgeisiol, sicrhau mwy o gyfleoedd i ddysgwyr astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, meithrin a hyfforddi darlithwyr ac addysgwyr, ynghyd â chyllido darpariaeth ac adnoddau o'r radd flaenaf ar gyfer myfyrwyr sydd yn dymuno astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, mae'r Coleg yn ymwneud yn gynyddol â marchnata addysg trwy gyfrwng y Gymraeg ac annog myfyrwyr i ymaelodi gyda'r Coleg.

Pwrpas a sail y memorandwm o ddealltwriaeth

5. Pwrpas y ddogfen hon yw darparu fframwaith ar gyfer perthnasoedd gwaith rhwng CCAUC a'r Coleg ('y sefydliadau'), i sicrhau cydweithredu effeithlon ac effeithiol. Mae'n eu hymrwymo i gydweithio er mwyn gwneud y canlynol:
   - osgoi dyblygu ymdrechion ar ran naill ai'r sefydliadau neu'r darparwyr;
   - dewis a gweithredu gweithgareddau sydd o ddiddordeb i'r ddau sefydliad, i roi sylw i'w cyfrifoldebau;
   - sicrhau bod arbenigedd perthnasol y sefydliadau cysylltiedig yn cael ei gydnabod yn gyfartal a'i ddefnyddio mewn partneriaeth os yw hynny'n briodol;
   - ystyried buddiannau'r naill a'r llall, os yw hynny'n briodol, wrth ddatblygu polisïau a gweithdrefnau.

6. Mae'n sefydlu perthnasoedd ar gyfer ymgynghori a chydweithredu'n seiliedig ar ddealltwriaeth gyffredin o gyfrifoldebau pob sefydliad, a dyhead ar y cyd i wneud y defnydd gorau o adnoddau cyfyngedig er lles y naill sefydliad a'r llall.

7. Mae'r sefydliadau'n cydnabod ac yn ystyried rôl a chyfrifoldebau ei gilydd fel sy'n briodol. Hefyd maent yn cydnabod annibynniaeth eu cylchoedd gwaith a sut mae amcanion a nodau'r sefydliadau'n ategu ei gilydd.

8. Bydd y ddau barti'n sicrhau bod unrhyw wybodaeth sy'n cael ei dosbarthu fel data personol (gan gynnwys data personol sensitif) oddi mewn i ystyr Deddf Diogelu Data 1998 (DDD), a chategorïau arbennig o ddata o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), yn cael ei defnyddio gan gydymffurfio â'r DDD ac, o 25 Mai 2018 ymlaen, â'r GDPR, heb gymryd unrhyw gamau a allai beryglu cyfrinachedd neu ddiogelwch y wybodaeth.

Gweithio mewn partneriaeth

9. Bydd CCAUC a'r Coleg yn nodi'r meysydd lle mae perthynas rhwng eu rôl a'u swyddogaethau annibynnol ac yn cytuno ar strategaethau a chamau gweithredu oddi mewn i'r rhain er mwyn cyflawni'r canlynol:
   - datblygu dealltwriaeth a rennir o rôl a chyfraniadau pob corff at wella ansawdd addysg a hyfforddiant;
   - drwy gyfwng ein prosesau sicrwydd blynyddol, rydym yn annog sefydliadau i gynyddu eu targedau ar gyfer y 5 a'r 40 credyd cyfrwng Cymraeg mae myfyrwyr yn eu sefyll;
   - dylanwadu ar ddarpariaeth addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg;
   - rhannu gwybodaeth, fel y nodir yn **Atodlen 1**;
   - meithrin ymgysylltu â phobl;
   - hwyluso gwelliannau parhaus a rhannu arferion da yng Nghymru.

10. Mae CCAUC a'r Coleg yn gweithio mewn partneriaeth i wella perthnasoedd y Coleg gyda sefydliadau addysg uwch ac i hybu cyfleuoedd cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys cyflogadwyedd cyfrwng Cymraeg a gweithio i wella dyheadau disgyblion sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, gan barhau i astudio yng Nghymru ar lefel addysg uwch.

Trefniadau rheoli, monitro, adrodd yn ôl a chyfrinachedd

11. Daw'r Memorandwm hwn i rym o ddyddiad ei lofnodi gan y ddau sefydliad a bydd yn parhau nes bod y naill sefydliad neu'r llall yn datgan ei fod yn dymuno terfynu'r cytundeb. Bydd y Memorandwm o Ddealltwriaeth yn cael ei adolygu bob blwyddyn ac efallai y caiff ei addasu ar unrhyw adeg drwy gytundeb y sefydliadau ar y cyd.

12. Bydd y sefydliadau'n cyfarfod deirgwaith y flwyddyn o leiaf i drafod materion perthnasol i'r Memorandwm hwn.

13. Bydd y rheolaeth ar y Memorandwm yn cael ei weithredu gan swyddogion ar ran CCAUC a'r Coleg ar y dyddiad llofnodi, fel y manylir isod:

CCAUC	Dr Cliona O'Neill	(029) 2085 9731	cliona.oneill@hefcw.ac.uk
Y Coleg	Dr Ioan Matthews	01267 610400	i.matthews@colegcymraeg.ac.uk

14. Bydd y cysylltiadau a enwir yn cytuno ar drefniadau manwl ar gyfer cyfathrebu a chyfnewid gwybodaeth yn rheolaidd rhwng CCAUC a'r Coleg, a fydd yn cynnwys cyfarfodydd adolygu blynyddol.

15. Bydd y trefniadau y manylir arnynt yn y Memorandwm yn cael eu monitro gan y cysylltiadau a enwir. Bydd pob cyswllt yn gyfrifol am roi gwybod i'r sefydliad y mae ef/hi yn swyddog iddo am unrhyw bryderon. Gall pryderon o'r fath arwain at derfynu'r Memorandwm hwn.

16. Bydd pob sefydliad yn cadw at gyfrinachedd fel sy'n ofynnol mewn perthynas â gwybodaeth a rennir nad yw'n wybodaeth gyhoeddus.

Effaith gyfreithiol y memorandwm o ddealltwriaeth

17. Cydnabyddir a derbynnir nad yw'r Memorandwm hwn yn creu unrhyw hawliau, atebolrwydd na rhwymedigaethau a fyddai'n cael effaith o rwymo'n gyfreithiol.

Llofnod:.....
(Prif Weithredwr, CCAUC)
Dyddiad.....20/4/18.....

Llofnod:.....
(Prif Weithredwr, Y Coleg)
Dyddiad.....20/4/18.....

Atodlen 1: Protocol ar gyfer gwaith partneriaeth rhwng CCAUC a'r Coleg

1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r protocol hwn yn datgan sut bydd CCAUC a'r Coleg yn rhannu gwybodaeth.

2 Gwaith partneriaeth

2.1 Bydd cyfarfod blynyddol o'r Prif Weithredwyr ac o leiaf ddau gyfarfod arall bob tymor, i roi cyfleoedd i drafod y meysydd sy'n rhan o'r Memorandwm. Hefyd bydd CCAUC yn mynychu cyfarfodydd Bwrdd y Coleg i arsylwi ac mae'n cael ei wahodd i Lys blynyddol y Coleg.

2.2 Er mwyn rhannu gwybodaeth yn effeithiol, lleihau'r baich ar sefydliadau, ac annog y farn bod y sefydliadau'n gweithredu'n gydlynol ac yn integredig, bydd y ddau sefydliad yn gwneud y canlynol:

- trafod eu gweithgareddau mewn perthynas â meysydd o ddiddordeb cyffredin yn y cyfarfodydd cyswllt;
- rhoi gwybod i'r parti arall am unrhyw faterion o ddiddordeb a nodwyd, fel maent yn codi;
- rhoi gwybod i'r parti arall am unrhyw faterion o ddiddordeb cyffredin sy'n codi yn y cyfarfod cyswllt neu drwy gyfathrebu electronig lle byddai hysbysiad cynharach o fudd i'r naill barti neu'r llall;
- cydnabod a pharchu sefyllfa lle mae'r naill sefydliad neu'r llall yn gyfyngedig yn ei gamau gweithredu oherwydd contractau a buddiannau masnachol;
- cynnwys y parti arall mewn unrhyw ymgynghoriad ar ddatblygu neu ddiwygio'r prosesau, y polisïau neu'r gweithdrefnau fel mae'r materion hyn yn codi;
- gwahodd y parti arall i gynadleddau, digwyddiadau a hyfforddiant perthnasol allweddol fel maent yn codi.